## P-05-1077 Peidiwch â newid ffin bleidleisio de Ystrad Mynach

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Philip Morris, ar ôl casglu cyfanswm o 912 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynigion datblygedig iawn, sydd bellach gerbron Llywodraeth Cymru, a fyddai'n symud ystâd Melin yr Efail a Cwrt Coopers i gyngor cymuned Llanbradach. Ni hysbyswyd trigolion yr ardal gyfan hon, er bod eu cynghorwyr cymuned lleol yn gwbl ymwybodol. Nid oes neb wedi ymgynghori â ni. Dim drwy hap a damwain y cawsom wybod bod y cynigion hyn yn bodoli.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r cynigion hyn yn ein gwahanu â'n cymuned, gan fynd â'n pleidlais o'r gymuned rydym yn cymryd rhan weithredol ynddi a'i rhoi i gymuned nad ydym yn rhan ohoni. Nod y ddeiseb hon yw rhoi gwybod i chi, ein cynrychiolwyr yn y Senedd, am ein gwrthwynebiad cryf i'r newidiadau arfaethedig i ffin bleidleisio de Ystrad Mynach. Rydym yn mynnu peidio â chael ein gwahanu â'n cymuned ac yn hyderu y byddwch yn cymryd y camau priodol i sicrhau nad ydym yn rhan o'r cynnig.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Caerffili
- Dwyrain De Cymru